12.11.2020

Elin Lenny
Cyswllt Contact
Ffôn Phone
0330 588 0506

**Erthygl i'r Wasg** Press Release

# Prosiect Pum Mil yn ôl i godi calon

Mae'r gyfres boblogaidd, **Prosiect Pum Mil,** yn ôl i godi gwen a dangos cymunedau Cymru ar eu gorau. Ers y gyfres gyntaf, mae'r rhaglen sy'n gweld pob cwr o gymdeithas yn tynnu at ei gilydd er budd y gymuned leol wedi ennill gwobrau lu.

Eleni, cipiodd wobr y Rhaglen Adloniant orau yng Ngwobrau Gŵyl Cyfryngau Celtaidd a llwyddodd Emma a Trystan i ennill gwobr BAFTA Cymru am eu gwaith cyflwyno.

Y cwestiwn mawr yw, pa brosiectau haeddiannol fydd yn cael cymorth Emma, Trystan a'r cynllunydd amryddawn Gwyn Eiddior y tro hyn? I ddechrau, cymuned Llanystumdwy sy'n cael sylw'r criw nos Sul am 8.00 ar S4C.

"Yn ogystal â bod yn gartref genedigol i gyn prif weinidog a'r dramodydd Wil Sam, mae yna dafarn enwog yma hefyd, sef Tafarn y Plu . A nhw sydd isio'n help ni tro yma" meddai Emma.

Ychwanegodd Trystan; "Yr un ydi'r drefn, dim ond pum mil o bunnau sydd yn y pot i gyflawni'r prosiect, a hynny o fewn ychydig ddyddiau."

Gyda'r dafarn yn lle i bobl leol ymgynnull ers bron 200 mlynedd, mae'r gymuned wedi camu 'mlaen i ymgymryd â'r gwaith o redeg y lle ers blwyddyn bellach. Ond er yn galon i'r gymuned, nid yw'r gofod yn ddigon mawr i gynnig lloches neu ddigwyddiad i holl drigolion y pentref.

Cynllun y dylunydd, Gwyn Eiddior, yw adeiladu llwyfan yn yr ardd i greu man perffaith i gynnal digwyddiadau awyr agored. Gydag yntau yn llanc lleol ac yn ŵyr i Wil Sam, mae pwysau mawr ar Gwyn, yn ogystal â Trystan ac Emma i blesio.

"Dwi'n meddwl bysa fy Nhaid yn falch iawn ein bod yn gwneud gwaith ar y Plu, neu'r Bluan" meddai Gwyn.

"Ges i'r pleser o gael peint efo fo yma sawl tro, a dwi'n siwr fysa fo wrth ei fodd yn gweld y gymuned yn mwynhau, ac yn gweld gwaith ei wyrion o gwmpas y lle."

Ond a fydd y gymuned mor barod i dorchi llewys er lles y fenter?

"Mi fyswch chi'n synnu be 'mae rhywun yn neud am beint" meddai Sion, un o wirfoddolwyr pwyllgor y Plu.

Y prosiectau eraill sy'n cael cyfle i fanteisio ar gronfa o £5,000 i sbarduno ysbryd cymunedol a chyfres o gymwynasau fydd; Canolfan addysg Ysgol Glantaf, cymuned gwledig Ysbyty Ifan, Cylch Meithrin Nelson, Clwb y Bont ym Mhontypridd a Banc Bwyd ardal Llandysul.

**Prosiect Pum Mil**
**Nos Sul 22 Tachwedd, 8.00**
**Isdeitlau Saesneg**
**Ar alw: S4C Clic, iPlayer a llwyfannau eraill**
**Cynhyrchiad Boom Cymru ar gyfer S4C**

*Noddir **Prosiect Pum Mil** gan Menter a Busnes - https://menterabusnes.cymru*

12.11.2020

Elin Lenny
Cyswllt Contact
Ffôn Phone
0330 588 0506

**Erthygl i'r Wasg** **Press Release**

# TV show that gives communities £5K kick start is back

The popular and heart-warming S4C programme, **Prosiect Pum Mil** is back. Since the first series aired last year, the TV show that sees society pull together for the benefit of the community has won numerous awards.

It won the Best Entertainment Programme award at the Celtic Media Festival Awards and Emma and Trystan recently won the BAFTA Cymru award for their presenting work.

The burning question is, which worthy projects will benefit from the magic touch of Emma, Trystan and multi-skilled designer Gwyn Eiddior this time? First to get the crew's attention on Sunday evenings at 8.00 are the people of Llanystumdwy.

"As well as being the birthplace of a former prime minister and renowned playwright Wil Sam, there's a famous pub here too, Tafarn y Plu or the Feathers Inn. And they have asked for our help," said Emma.

Trystan added; "True to form, there's five thousand pounds in the pot and only three or four days to finish it all."

With the pub having been a popular place to congregate for around 200 years, last year the locals had to step in to save it from closure, by coming together to buy it as a community venture. The problem that remains is, with it being the beating heart of the village, the space inside just isn't big enough to accommodate everyone.

Designer, Gwyn Eiddior, plans to create the perfect event space by building a covered outdoor stage in the grounds. As a local lad and grandson of Wil Sam, Gwyn, along with Trystan and Emma are under immense pressure to please.

"I think my grandfather would be extremely proud that we're working on the Plu, or *Y Bluan*" said Gwyn.

"I had the pleasure of having a pint with him here on several occasions before he passed away. I'm sure he would love to see his grandchildren's stamp on the place and all the community being able to enjoy it."

But £5,000 doesn't go far on such big projects. Will the community be ready to roll up their sleeves as well?

"You'd be amazed at what people will do for a pint," said Sion, one of the pubs volunteers.

Other projects that get to benefit from a £5,000 boost and the energetic Emma and Trystan to kick start a series of favours and community spirit will be; the education centre at Ysgol Glantaf, the rural community of Ysbyty Ifan, Cylch Meithrin Nelson, Clwb y Bont in Pontypridd and the Llandysul Food Bank.

**Prosiect Pum Mil**
**Sunday 22 November, 8.00**
**English subtitles available**
**On demand: S4C Clic, iPlayer and other platforms**
**A Boom Cymru production for S4C**

*Prosiect Pum Mil is sponsored by Menter a Busnes - https://menterabusnes.cymru*